
ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales
Datganiad Ystadegol Cyntaf
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Absenoldeb o Ysgolion Cynradd, 2016/17

**14 Rhagfyr 2017**
**SDR 183/2017**

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf blynyddol hwn yn cyflwyno gwybodaeth am absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, a disgyblion rhwng 5 a 10 oed mewn ysgolion canol a gynhelir, ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol yng Nghymru. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd gyfan, o 2006/07 i 2016/17.

**Siart 1: Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol, 2006/07 i 2016/17**




Yn gyffredinol, mae **absenoldeb cyffredinol** wedi bod yn gostwng ers 2006/07.

Yn 2016/17, cyfradd yr absenoldeb cyffredinol oedd **5.1 y cant**.

Mae **absenoldeb anawdurdodedig** wedi cynyddu ers 2011/12. Yn 2016/17, cyfradd absenoldeb anawdurdodedig oedd **1.1 y cant.**



**Ychydig dros 1 mewn bob 70 o ddisgyblion yn absennol yn gyson** o ysgolion cynradd yn 2016/17 (neu 1.5 y cant).

- Yn gyffredinol, mae absenoldeb cyson wedi bod yn gostwng ers 2008/09. Roedd nifer y disgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd yn 2015/16 yn llai na hanner ffigwr 2008/09. Mae disgybl sy'n absennol yn gyson yn ddisgybl a gollodd o leiaf 20 y cant o sesiynau hanner diwrnod a fu ysgolion ar agor (ceir esboniad mwy manwl yn yr adran Diffiniadau).
- **Salwch oedd y rheswm fwyaf cyffredin am absenoldeb** yn ysgolion cynradd yn 2016/17.

## Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn dangos absenoldeb cyffredinol ac anawdurdodedig o ysgolion cynradd, gan gynnwys cyflwyniad o'r data fesul rheswm am absenoldeb. Mae hefyd yn adrodd ar absenoldeb cyson (persistent absenteeism) mewn ysgolion cynradd.

Dangosir data ar lefel Cymru, awdurdod lleol a chonsortiwm.

## Yn y datganiad hwn

Math ysgol 4
Rhyw 5
Hawl i brydau ysgol am ddim 6
Awdurdod Lleol 7
Absenoldeb cyffredinol 8
Absenoldeb heb awdurdod 9
Awdurdod lleol 10
Hyd absenoldeb 14
Absenoldeb cyson 17
Rheswm dros absenoldeb 18
Canran o sesiynau methwyd yn ôl rheswm 20

Ystadegydd: Stephen Hughes ~ 029 2082 3599 ~ ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 029 2089 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 029 2082 5050 Twitter: @ystadegaucymru

## Cynnwys

Tudalen


**Newid mewn absenoldeb dros amser, fesul math ysgol**

Siart 1 Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol, 2006/07 i 2016/17 1

Tabl 1 Absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol, yn ôl sector 4

Tabl 2 Absenoldeb anawdurdodedig disgyblion o oedran ysgol gorfodol, yn ôl sector 4

**Newid mewn absenoldeb dros amser, fesul rhyw**

Tabl 3 Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol, yn ôl rhyw'r disgyblion 5

**Cymhariaeth absenoldeb a hawl i brydau ysgol am ddim**

Tabl 4 Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol gynradd a chanol brif ffrwd, yn ôl y gyfran sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, 2016/17 6

Siart 2 Absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol, yn ôl ysgol gynradd a chanol a chanran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, 2016/17 6

**Dadansoddiad awdurdod lleol a chonsortiwm o absenoldeb**

Map 1 Absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol o ysgolion cynradd ac arbennig a gynhelir, 2016/17 7

Map 2 Absenoldeb anawdurdodedig disgyblion o oedran ysgol gorfodol o ysgolion cynradd ac arbennig a gynhelir, 2016/17 8

Tabl 5 Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol gynradd, canol ac ysgol arbennig a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol a chonsortiwm 9

Siart 3 Ystod cyfraddau absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn awdurdodau lleol 10

Siart 4 Ystod cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn awdurdodau lleol 11

Siart 5 Absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol gynradd, canol ac arbennig a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2016/17 12

Siart 6 Absenoldeb anawdurdodedig disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol gynradd, canol ac arbennig a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2016/17 13

**Nifer o ddisgyblion, fesul hyd absenoldeb**

Tabl 6 Dosbarthiad disgyblion mewn ysgolion cynradd a chanol a gynhelir yn ôl cyfnodau absenoldeb cyffredinol, 2016/17 14

Tabl 7 Dosbarthiad disgyblion mewn ysgolion cynradd a chanol a gynhelir yn ôl cyfraddau absenoldeb cyffredinol, 2016/17 14

Siart 7 Dosbarthiad disgyblion mewn ysgolion cynradd a chanol a gynhelir yn ôl cyfnodau absenoldeb cyffredinol 15

**Absenoldeb cyson**

Tabl 8 Disgyblion o oedran ysgol gorfodol a oedd yn absennol yn gyson o ysgolion cynradd a chanol a gynhelir 17

**Newid mewn absenoldeb dros amser, fesul rheswm am absenoldeb**

Tabl 9 Dosbarthiad y rhesymau am absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ac ysgolion canol, yn ôl y rheswm am yr absenoldeb 18

Tabl 10 Canran y sesiynau a gollwyd gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ac ysgolion canol, yn ôl y rheswm am yr absenoldeb 20

**Gwybodaeth ychwanegol**

Nodiadau 21

## Cyflwyniad

Mae Tablau 1 i 7 yn dadansoddi canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb yn ôl math yr ysgol, rhyw'r disgyblion, awdurdod lleol, yr hawl i brydau ysgol am ddim, ac yn y blaen. Mae Tabl 8 yn adrodd ar nifer y disgyblion yr ystyrir eu bod yn absennol yn gyson (mae diffiniad o absenoldeb cyson ar gael yn adran y Nodiadau). Mae Tablau 9 a 10 yn cyflwyno gwybodaeth am y rhesymau am absenoldeb, o 2011/12 i 2016/17.

Mae Siart 1 yn dangos canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb cyffredinol ac anawdurdodedig o ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion arbennig, ac ysgolion annibynnol o 2005/06. Mae Siart 2 yn plotio canrannau ysgolion o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim ynghyd â'u cyfraddau absenoldeb cyffredinol i ddangos y cydberthyniad rhwng y ddau fath o ddata. Mae Siartiau 3 a 4 yn dangos sut y mae ystodau cyfraddau absenoldeb awdurdodau lleol wedi newid dros amser. Mae Siartiau 5 a 6 yn gosod awdurdodau lleol yn eu trefn yn ôl eu cyfraddau absenoldeb cyffredinol ac anawdurdodedig, gan ddangos sut y mae awdurdodau lleol yn cymharu â'i gilydd. Mae Siart 7 yn gosod disgyblion mewn grwpiau yn ôl eu cyfraddau absenoldeb ac yn dangos sut y mae'r grwpiau hyn wedi newid dros amser.

Mae mapiau 1 a 2 yn rhoi cynrychiolaeth weledol o gyfraddau absenoldeb cyffredinol ac anawdurdodedig ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn 2016/17.

## Tabl 1: Absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol, yn ôl sector (a)

| | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math ysgol | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| **Ysgolion a'i gynhelir** | **6.9** | **6.7** | **6.8** | **7.0** | **6.7** | **6.2** | **6.3** | **5.2** | **5.1** | **5.1** | **5.1** |
| Ysgolion cynradd | 6.9 | 6.7 | 6.8 | 6.9 | 6.7 | 6.1 | 6.3 | 5.2 | 5.1 | 5.1 | 5.1 |
| Ysgolion canol | .. | .. | .. | .. | .. | .. | .. | 5.3 | 4.7 | 4.9 | 5.3 |
| Ysgolion arbennig | 10.6 | 9.0 | 10.3 | 10.7 | 12.6 | 10.8 | 9.9 | 9.2 | 9.0 | 9.4 | 8.9 |
| **Ysgolion annibynnol** | **4.5** | **4.7** | **5.3** | **4.9** | **5.3** | **4.9** | **5.0** | **4.0** | **4.0** | **4.1** | **3.7** |
| **Cyfanswm** | **6.9** | **6.7** | **6.8** | **6.9** | **6.7** | **6.2** | **6.3** | **5.2** | **5.1** | **5.1** | **5.1** |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Nid yw'r ffigurau yn cynnwys data 15 ysgol annibynnol na ymatebodd i'r arolwg.

## Tabl 2: Absenoldeb anawdurdodedig disgyblion o oedran ysgol gorfodol, yn ôl sector (a)

| | Percentage of half-day sessions missed | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| School type | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| **All maintained schools** | **0.9** | **0.9** | **1.0** | **1.0** | **0.9** | **0.8** | **0.9** | **1.0** | **1.0** | **1.1** | **1.1** |
| Primary schools | 0.9 | 0.9 | 1.0 | 1.0 | 0.9 | 0.8 | 0.9 | 1.0 | 1.0 | 1.1 | 1.1 |
| Middle schools | .. | .. | .. | .. | .. | .. | .. | 0.9 | 0.9 | 1.2 | 1.4 |
| Special schools | 1.2 | 0.9 | 1.0 | 1.2 | 1.3 | 0.9 | 0.6 | 1.1 | 0.8 | 0.8 | 0.8 |
| **Independent schools** | **0.1** | **0.1** | **0.2** | **0.1** | **0.2** | **0.1** | **0.2** | **0.1** | **0.1** | **0.2** | **0.2** |
| **Total** | **0.9** | **0.9** | **1.0** | **1.0** | **0.9** | **0.7** | **0.9** | **1.0** | **1.0** | **1.1** | **1.1** |

Source: Pupils' Attendance Record, Welsh Government

(a) Figures do not include data for 15 independent schools that did not respond to the survey.

### Pwyntiau allweddol

**Yn 2016/17:**

**5.1%** o absenoldeb cyffredinol mewn ysgolion cynradd.

**1.1%** o absenoldeb anawdurdodedig mewn ysgolion cynradd.

Roedd absenoldeb cyffredinol yr un peth yn 2016/17.

Mae absenoldeb cyffredinol wedi gostwng ers 2006/07

- Parhaodd absenoldeb cyffredinol yr un peth yn 2015/16. Cynyddodd y gyfradd absenoldeb cyffredinol (sy'n cynnwys absenoldebau a awdurdodwyd a'r rhai anawdurdodedig) o ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion arbennig, ac ysgolion annibynnol yn 2012/13, a hynny oherwydd salwch yn bennaf. Yn y pedair blynedd ers y lefel uchaf honno, mae'r gyfradd absenoldeb cyffredinol wedi gostwng neu aros yr un peth.
- Bu dim newid yng nghyfraddau absenoldebau anawdurdodedig yn 2016/17. Yn 2011/12, cyrhaeddodd canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb anawdurdodedig o bob ysgol gynradd ei bwynt isaf yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Erbyn 2013/14, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 1.0 y cant, arhosodd yna yn 2014/15 a chynyddodd yn 2015/16 i 1.1 y cant, yr un ffigwr a 2016/17.
- Er bod cyfraddau absenoldeb cyffredinol wedi codi ac wedi gostwng ambell waith dros y cyfnod hwn, yn gyffredinol buont yn gostwng. Mae cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig wedi amrywio ers 2005/06, ond 1.1 y cant oedd y gyfradd uchaf a welwyd dros y 10 mlynedd diwethaf.

## Tabl 3: Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol, yn ôl rhyw'r disgyblion (a)

| | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| Nifer yr ysgolion a ddarparodd wybodaeth am ryw | 1,474 | 1,436 | 1,421 | 1,401 | 1,366 | 1,351 |
| Canran yr ysgolion a ddarparodd wybodaeth am ryw | 99.5 | 99.7 | 99.5 | 99.4 | 99.6 | 99.6 |
| Absenoldeb cyffredinol | | | | | | |
| Bechgyn | 6.2 | 6.3 | 5.3 | 5.1 | 5.2 | 5.2 |
| Merched | 6.1 | 6.3 | 5.2 | 5.0 | 5.0 | 5.1 |
| Absenoldeb anawdurdodedig | | | | | | |
| Bechgyn | 0.8 | 0.9 | 1.0 | 1.0 | 1.1 | 1.1 |
| Merched | 0.7 | 0.8 | 1.0 | 1.0 | 1.1 | 1.1 |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Dylid bod yn ofalus wrth gymharu newidiadau mewn data ar absenoldeb yn ôl rhyw'r disgyblion rhwng un flwyddyn ac arall. Er ei bod yn ofynnol ers 2007/08 i ysgolion a gynhelir ddarparu gwybodaeth am ryw eu disgyblion, mae'n dal yn rhyw beth gwirfoddol i ysgolion arbennig ac annibynnol, ac felly mae niferoedd gwahanol o ysgolion yn darparu'r wybodaeth hon bob blwyddyn.

**Pwyntiau allweddol**

**Yn 2016/17:**

Roedd lefelau absenoldeb cyffredinol bechgyn yn uwch na lefelau merched.

Roedd lefelau absenoldeb anawdurdodedig yr un fath i fechgyn a merched.

- Roedd cyfradd absenoldeb cyffredinol bechgyn ychydig yn uwch na’r gyfradd ymysg merched yn 2016/17. Dyma a welwyd dros y 5 mlynedd ddiwethaf ac eithrio yn 2012/13 pan oedd y gyfradd absenoldeb cyffredinol yr un fath ymysg bechgyn a merched.
- Roedd cyfradd yr absenoldebau anawdurdodedig o ysgolion cynradd, arbennig ac annibynnol a gynhelir yr un fath ymysg bechgyn a merched ym mhob un o’r pedair blynedd diwethaf.

## Tabl 4: Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol cynradd prif ffrwd ac ysgolion canol, yn ôl y ganran sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, 2016/17 (a)


| | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd | | |
|---|---|---|---|
| Y ganran sydd â hawl i brydau ysgol am ddim | Absenoldeb cyffredinol | Absenoldeb anawdurdodedig | Nifer yr ysgolion |
| 10% neu lai | 4.1 | 0.7 | 324 |
| 15% neu lai, ond mwy na 10% | 4.7 | 0.9 | 337 |
| 20% neu lai, ond mwy na 15% | 5.3 | 1.2 | 239 |
| 30% neu lai, ond mwy nag 20% | 5.9 | 1.5 | 164 |
| Mwy na 30% | 6.2 | 1.8 | 182 |
| Pob ysgol cynradd | 5.1 | 1.1 | 1,246 |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cymru


(a) Mae'r data am brydau ysgol am ddim yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd.

- Mae Tabl 4 yn awgrymu bod perthynas rhwng cyfran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r gyfradd absenoldeb. Mae'n awgrymu bod cyfraddau absenoldeb ysgolion lle y ceir cyfran uwch o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn uwch yn gyffredinol.
- Gall fod yn haws sylwi ar y patrwm hwn yn Siart 2. Mae pob un o'r dotiau ar y siart hon yn cynrychioli 1 o'r 1,246 o ysgolion cynradd prif ffrwd a gyflwynodd ddata ynghylch presenoldeb i Lywodraeth Cymru yn 2016/17. Mae cyfraddau absenoldeb cyffredinol yr ysgolion wedi'u plotio yn erbyn canran eu disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.
- Mae'r patrwm sy'n cael ei greu gan ddotiau'r ysgolion yn Siart 2 yn debyg i oleddf am i fyny. Mae'r siart yn dangos ei bod yn bosibl i ysgolion sydd â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim fod â chyfraddau gwahanol iawn o ran absenoldeb cyffredinol. Er hynny, mae patrwm yr oleddf am i fyny'n awgrymu bod ysgolion sydd â chanran uwch o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim â chyfraddau absenoldeb uwch yn gyffredinol.


## Siart 2: Absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol, yn ôl ysgol cynradd prif ffrwd ac ysgolion canol a'r ganran sy'n cael prydau ysgol am ddim, 2016/17



**Map 1: Absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol o ysgolion cynradd ac arbennig a gynhelir, 2016/17**



**Map 2: Absenoldeb anawdurdodedig disgyblion o oedran ysgol gorfodol o ysgolion cynradd ac arbennig a gynhelir, 2016/17**



**Tabl 5: Absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol cynradd, canol ac arbennig a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol a chonsortiwm**

| | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd: | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Absenoldeb cyffredinol | | | | | Absenoldeb anawdurdodedig | | | | |
| Awdurdod Lleol | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| **Y Gogledd** | 5.8 | 5.2 | 5.2 | 5.1 | 5.1 | 0.6 | 0.5 | 0.4 | 0.5 | 0.6 |
| Ynys Môn | 5.6 | 5.4 | 5.3 | 4.9 | 5.2 | 0.6 | 0.5 | 0.6 | 0.6 | 0.6 |
| Gwynedd | 5.7 | 4.9 | 5.0 | 4.6 | 4.7 | 0.4 | 0.3 | 0.3 | 0.2 | 0.2 |
| Conwy | 5.9 | 5.3 | 5.2 | 5.1 | 5.2 | 0.8 | 0.6 | 0.6 | 0.7 | 0.8 |
| Sir Ddinbych | 5.7 | 5.2 | 5.3 | 5.0 | 5.1 | 0.6 | 0.5 | 0.5 | 1.1 | 1.3 |
| Sir y Fflint | 5.9 | 5.2 | 5.3 | 5.3 | 5.2 | 0.5 | 0.4 | 0.3 | 0.3 | 0.4 |
| Wrecsam | 5.9 | 5.2 | 5.2 | 5.3 | 5.3 | 0.7 | 0.6 | 0.5 | 0.6 | 0.6 |
| **Y De-orllewin a'r Canolbarth** | **6.6** | **5.1** | **4.9** | **5.0** | **5.1** | **0.4** | **1.1** | **1.0** | **1.1** | **1.1** |
| Powys | 5.8 | 4.4 | 4.4 | 4.3 | 4.6 | 0.2 | 0.8 | 0.7 | 0.6 | 0.6 |
| Ceredigion | 5.7 | 4.4 | 4.3 | 4.6 | 4.7 | 0.6 | 0.9 | 0.9 | 1.1 | 1.3 |
| Sir Benfro | 6.5 | 5.2 | 5.0 | 5.1 | 5.1 | 0.3 | 1.2 | 1.0 | 1.0 | 1.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 6.5 | 5.0 | 4.8 | 5.2 | 5.6 | 0.4 | 0.8 | 0.9 | 0.9 | 0.8 |
| Abertawe | 7.0 | 5.6 | 5.1 | 5.1 | 5.0 | 0.6 | 1.4 | 1.2 | 1.3 | 1.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 7.0 | 5.4 | 5.2 | 5.5 | 5.3 | 0.3 | 1.2 | 1.3 | 1.5 | 1.7 |
| **Canol De Cymru** | **6.3** | **5.3** | **5.0** | **5.1** | **5.1** | **1.3** | **1.2** | **1.3** | **1.4** | **1.5** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6.5 | 5.2 | 4.9 | 4.7 | 4.9 | 0.8 | 0.8 | 1.0 | 1.0 | 1.0 |
| Bro Morgannwg | 5.8 | 4.7 | 4.7 | 4.7 | 4.9 | 1.0 | 0.7 | 0.9 | 1.1 | 1.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 6.6 | 5.5 | 5.3 | 5.4 | 5.4 | 0.9 | 0.9 | 1.2 | 1.4 | 1.5 |
| Merthyr Tudful | 6.7 | 6.1 | 5.7 | 5.8 | 5.7 | 0.2 | 0.6 | 1.1 | 1.2 | 1.5 |
| Caerdydd | 6.0 | 5.1 | 4.9 | 5.0 | 5.0 | 2.0 | 1.8 | 1.7 | 1.8 | 1.8 |
| **Y De-ddwyrain** | **6.7** | **5.4** | **5.3** | **5.3** | **5.2** | **1.1** | **1.1** | **1.1** | **1.1** | **1.2** |
| Caerffili | 6.8 | 5.6 | 5.5 | 5.4 | 5.4 | 1.0 | 0.8 | 0.7 | 0.8 | 0.9 |
| Blaenau Gwent | 6.9 | 5.6 | 5.5 | 5.5 | 5.5 | 0.5 | 1.3 | 1.2 | 1.1 | 1.2 |
| Torfaen | 6.4 | 5.3 | 5.1 | 5.2 | 5.4 | 1.3 | 1.1 | 1.2 | 1.0 | 1.2 |
| Sir Fynwy | 5.6 | 4.2 | 4.2 | 4.3 | 4.4 | 0.2 | 0.6 | 0.7 | 0.7 | 0.7 |
| Casnewydd | 7.0 | 5.8 | 5.5 | 5.6 | 5.3 | 1.8 | 1.7 | 1.8 | 1.8 | 1.8 |
| **Cymru (a) (b)** | **6.3** | **5.2** | **5.1** | **5.1** | **5.1** | **0.9** | **1.0** | **1.0** | **1.1** | **1.1** |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Nid yw'r ffigurau yn cynnwys data am 15 ysgol annibynnol na ymatebodd i'r arolwg.
(b) Gan gynnwys ysgolion annibynnol.

**Absenoldeb cyffredinol , ar gyfer awdurdodau lleol, 2016/17:**

**5.7%** oedd y cyfradd uchaf.

**4.4%** oedd y cyfradd isaf.

**Absenoldeb heb awdurdod**


**1.8%** oedd y cyfradd uchaf.

**0.2%** oedd y cyfradd isaf.

- Ym Merthyr Tudful y cafwyd y gyfradd uchaf o ran absenoldeb cyffredinol o ysgolion cynradd yn 2016/17 (5.7 y cant o sesiynau hanner diwrnod wedi'u colli). O'r holl gonsortia, De Ddwyrain Cymru a oedd â'r gyfradd uchaf o ran absenoldeb cyffredinol yn 2016/17.
- Yn Sir Fynwy y cafwyd y gyfradd isaf o ran absenoldeb cyffredinol yn 2016/17 (4.4 y cant).
- Yng Ngwynedd gwelwyd y gyfradd isaf o ran absenoldeb anawdurdodedig o ysgolion cynradd yn 2016/17 (0.2 y cant). Casnewydd a Caerdydd oedd â'r gyfradd uchaf o ran absenoldeb anawdurdodedig (1.8 y cant).
- Mae cyfraddau awdurdodau lleol ar gyfer 2016/17 yn siartiau 5 a 6, yn ogystal a mapiau 1 a 2 uchod, ac efallai fydd yn haws i weld sut mar awdurdodau yn cymharu yma.

## Siart 3: Ystod cyfraddau absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn awdurdodau lleol

Mae Siart 3 yn dangos sut y mae ystod y cyfraddau absenoldeb cyffredinol ar lefel awdurdodau lleol wedi newid dros amser a gellir ei defnyddio ar y cyd â'r colofnau 'Absenoldeb cyffredinol' yn Nhabl 5. Ym mhob blwyddyn, mae brig y rhesen las yn dangos y gyfradd absenoldeb uchaf ymysg awdurdodau lleol ac mae gwaelod y rhesen las yn dangos y gyfradd absenoldeb isaf ymysg yr awdurdodau lleol. Y llinell las dywyll yn y rhesen hon yw'r gyfradd absenoldeb cyffredinol gyfartalog i Gymru.




**Pwyntiau allweddol**

**Yn 2016/17:**


Mae'r gyfradd uchaf o ran absenoldeb cyffredinol wedi cynyddu.

Cynyddodd y gyfradd isaf o ran absenoldeb cyffredinol hefyd.

- Yn gyffredinol, ers 2007 mae'r amrywiad yn y cyfraddau dros yr awdurdodau lleol wedi cyfyngu.
- Gostyngodd y cyfradd uchaf o absenoldeb cyffredinol, a cynyddodd y cyfradd isaf o absenoldeb cyffredinol, yn 2016/17.
- Mae'r gyfradd uchaf o ran absenoldeb cyffredinol ar lefel awdurdodau lleol wedi gostwng ers iddi gyrraedd ei huchafbwynt diwethaf yn 2008/09, heblaw am yn 2015/16 lle by cynydd bach. Ar y llaw arall, mae'r gyfradd isaf wedi amrywio ers hynny.


## Siart 4: Ystod cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn awdurdodau lleol

Mae Siart 4 yn dangos sut y mae ystod y cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig ar lefel awdurdodau lleol wedi newid dros amser, a gellir ei defnyddio ar y cyd â cholofnau 'Absenoldeb anawdurdodedig' yn Nhabl 5. Ym mhob blwyddyn, mae brig y rhesen las yn dangos y gyfradd absenoldeb uchaf ymysg awdurdodau lleol ac mae gwaelod y rhesen las yn dangos y gyfradd absenoldeb isaf. Y llinell las dywyll yn y rhesen hon yw'r gyfradd absenoldeb anawdurdodedig gyfartalog i Gymru.





- Mae'r amrediad rhwng awdurdodau lleol yn debyg i 2007.
- Ni newidiodd y cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig uchaf rhwng a 1.8 y cant yn 2016/17.
- Bu dim newid yn y cyfradd isaf o absenoldeb anawdurdodedig yn 2016/17, 0.2 y cant. Mae wedi amrywio rhwng 0.2 y cant a 0.3 y cant ers 2007/08.

**Siart 5: Absenoldeb cyffredinol disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol gynradd ac arbennig a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2016/17**



**Siart 6: Absenoldeb anawdurdodedig disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol gynradd ac arbennig a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2016/17**



## Tabl 6: Dosbarthiad disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir yn ôl cyfnodau absenoldeb cyffredinol, 2016/17

| Nifer diwrnodau absenoldeb cyffredinol | Disgyblion mewn ysgolion yn ystod 2016/17 | | |
|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Canran yr absenoldeb |
| Dim absenoldeb | 11,112 | 5.2 | 0.0 |
| 0.5 i 5 diwrnod | 68,732 | 32.5 | 9.6 |
| 5.5 i 10 diwrnod | 57,110 | 27.0 | 21.6 |
| 10.5 i 15 diwrnod | 35,426 | 16.7 | 21.9 |
| 15.5 i 20 diwrnod | 18,844 | 8.9 | 16.3 |
| 20.5 i 25 diwrnod | 9,300 | 4.4 | 10.3 |
| mwy na 25 diwrnod | 11,240 | 5.3 | 20.3 |
| Cyfanswm | 211,764 | 100.0 | 100.0 |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

## Tabl 7: Dosbarthiad disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir yn ôl cyfraddau absenoldeb cyffredinol, 2016/17

| Cyfradd yr absenoldeb cyffredinol | Disgyblion mewn ysgolion yn ystod 2016/17 | | Canran yr absenoldeb cyffredinol |
|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | |
| 0% | 11,112 | 5.2 | 0.0 |
| Mwy na 0%, ond dim mwy na 4% | 97,512 | 46.0 | 19.0 |
| Mwy na 4%, ond dim mwy na 6% | 35,856 | 16.9 | 16.5 |
| Mwy na 6%, ond dim mwy na 10% | 42,654 | 20.1 | 30.4 |
| Mwy na 10%, ond dim mwy nag 20% | 21,047 | 9.9 | 25.5 |
| Mwy nag 20%, ond dim mwy na 30% | 2,516 | 1.2 | 5.3 |
| Mwy na 30%, ond dim mwy na 50% | 774 | 0.4 | 2.3 |
| Mwy na 50% | 293 | 0.1 | 1.0 |
| Cyfanswm | 211,764 | 100.0 | 100.0 |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

**Pwyntiau allweddol**

**Yn 2016/17:**

**211,764** nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir.


**5.3%** canran y disgyblion a fu'n absennol am dros 25 o ddiwrnodau (11,240 o ddisgyblion).

**5.2%** canran y disgyblion na fu'n absennol (11,112 o ddisgyblion).

- Ni fu 5.2 y cant o'r disgyblion yn absennol o gwbl o ysgolion cynradd a gynhelir. Golyga hynny fod ychydig yn fwy na 11,000 o ddisgyblion na wnaethant golli'r un sesiwn ysgol.
- Ar y llaw arall, roedd 5.3 y cant o'r disgyblion (nifer tebyg o ddisgyblion) yn absennol am fwy na 25 o ddiwrnodau, neu 5 wythnos, o ysgol.
- Bu bron 300 o ddisgyblion yn absennol am dros hanner yr amser yr oeddent wedi'u cofrestru mewn ysgol gynradd a gynhelir.
- Sylwch: nid yw nifer y disgyblion y mae eu habsenoldeb uwchlaw 20 y cant yn Nhabl 7 yn ymwneud â disgyblion sy'n absennol yn gyson (a ddiffinnir yn adran y Nodiadau), oherwydd mae'n cynnwys disgyblion a all fod wedi bod ar gofrestr am gyfnod byr. Gall cyfraddau absenoldeb disgyblion o'r fath fod yn uchel, ond nifer gymharol fach o sesiynau y gwnaethant eu colli ac felly ni chânt eu galw'n ddisgyblion sy'n absennol yn gyson. Mae dadansoddiad o absenoldeb cyson mewn ysgolion cynradd a gynhelir ar gael yn Nhabl 8.

## Siart 7: Dosbarthiad disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir yn ôl cyfnodau absenoldeb cyffredinol

Mae Siart 7 yn gosod pob disgybl a oedd yn mynd i ysgol gynradd a gynhelir yng Nghymru mewn grwpiau yn ôl nifer y diwrnodau y buont yn absennol ac mae'n plotio canran y disgyblion sy'n perthyn i bedwar grŵp o 2007/08 i 2015/16. Fel y dengys yr allwedd, mae'r bariau ar y gwaelod yn ymwneud â chanran y disgyblion na fuont yn absennol o gwbl ac mae'r cyfnodau absenoldeb y mae'r bariau uwchben yn ymwneud â nhw'n cynyddu hyd at y bariau ar y brig, sy'n cynrychioli canran y disgyblion a fu'n absennol am 20.5 o ddiwrnodau neu ragor. Dim ond ar gyfer yr wyth mlynedd ddiwethaf y gallwn gynhyrchu'r siart hon gan nad yw'r data angenrheidiol ar gael ynghylch y cyfnod blaenorol.




**Pwyntiau allweddol**

Gostyngodd canran y disgyblion na fuont yn absennol o gwbl.

Gostyngodd canran y disgyblion a fu'n absennol am 20.5 diwrnod neu fwy.

- Yn gyffredinol, fel mae absenoldeb cyffredinol yn gostwng, mae nifer y disgyblion sy'n absennol am dros 10 diwrnod yn y flwyddyn yn gostwng hefyd, gyda'r rhain yn fwy tebygol o fod yn absennol am lai o ddiwrnodiau (neu dim diwrnod o gwbl). Yn ystod 2016/17 bu cynnydd bach yn nifer y disgyblion yn absennol am fwy na 10 diwrnod.
- Bu cynnydd gostyngiad yn y canran y disgyblion na fuont yn absennol o ysgol gynradd a gynhelir rhwng 2015/16 a 2016/17. Roedd mwy na dwywaith cymaint o ddisgyblion yn 2016/17 na fuont yn absennol o'r ysgol o gymharu â 2009/10.
- Roedd y ganran o ddisgyblion a gollodd o leiaf 20.5 o ddiwrnodau o ysgolion cynradd a gynhelir yn llai yn 2016/17 na'r flwyddyn cynt.
- Bu cynnydd yn y canran o ddisgyblion a gollodd rhwng 10.5 ac 20 diwrnod i 25.6 y cant.

- Mae’r canran o ddisgyblion a gollodd rhwng 0.5 a 10 diwrnod wedi cynyddu yn gyffredinol ers 2009/10, a chyrhaeddodd yr uchafbwynt o 59.5 y cant yn 2015/16. Gostyngodd y canran hwn ychydig i 59.4 y cant yn 2016/17.
- Yn 2016/17 bu gostyngiad yn y canran o ddisgyblion na fuont yn absennol o gwbl a’r canran gydag absenoldeb uchel.
- Yn Nhabl 8, mae rhagor o wybodaeth am ddisgyblion sydd â lefel absenoldeb uchel, a adwaenir yn ddisgyblion sy’n absennol yn gyson

## Tabl 8: Disgyblion o oedran ysgol gorfodol a oedd yn absennol yn gyson o ysgolion cynradd a gynhelir (a)

| | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer disgyblion a oedd yn absennol yn gyson | 7,311 | 6,749 | 7,186 | 6,456 | 5,137 | 4,778 | 3,342 | 2,858 | 3,107 | 3,249 |
| Cyfanswm nifer y disgyblion | 199,673 | 196,895 | 194,337 | 193,885 | 194,897 | 197,113 | 201,891 | 205,049 | 208,532 | 211,764 |
| Canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson | 3.7 | 3.4 | 3.7 | 3.3 | 2.6 | 2.4 | 1.7 | 1.4 | 1.5 | 1.5 |
| Canran yr hanner diwrnodau a gollwyd gan ddisgyblion a oedd yn absennol yn gyson oherwydd: | | | | | | | | | | |
| Absenoldeb a awdurdodwyd | 20.4 | 20.3 | 20.2 | 20.1 | 20.8 | 20.3 | 19.4 | 19.2 | 18.9 | 18.3 |
| Absenoldeb anawdurdodedig | 8.2 | 8.2 | 7.7 | 7.8 | 7.1 | 7.4 | 8.2 | 8.3 | 9.0 | 9.9 |
| Absenoldeb cyffredinol | 28.7 | 28.5 | 28.0 | 27.9 | 27.9 | 27.7 | 27.7 | 27.5 | 27.9 | 28.2 |
| Absenoldeb disgyblion a oedd yn absennol yn gyson fel canran o absenoldeb pob disgybl: | | | | | | | | | | |
| Absenoldeb a awdurdodwyd | 12.9 | 11.9 | 12.5 | 11.5 | 10.2 | 9.0 | 7.6 | 6.6 | 7.0 | 7.1 |
| Absenoldeb anawdurdodedig | 32.3 | 28.9 | 29.4 | 28.7 | 24.6 | 20.8 | 13.8 | 11.6 | 12.4 | 13.3 |
| Absenoldeb cyffredinol | 15.6 | 14.3 | 14.9 | 13.8 | 11.9 | 10.6 | 8.7 | 7.6 | 8.2 | 8.4 |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Caiff dysgwyr a oedd yn absennol yn gyson eu diffinio fel dysgwyr a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o'r sesiynau hanner diwrnod. Ar gyfer 2016/17 mae hyn yn golygu eu bod wedi colli o leiaf 76 o sesiynau hanner diwrnod. Gweler yr adran Diffiniadau am ddisgrifiad manylach.

**Pwyntiau allweddol**

**Yn 2016/17:**

**211,764** nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ac ysgolion canol.

**3,249** nifer y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson (1.5 y cant).

Dim newid canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson.

- Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi gostwng bob blwyddyn ers 2009/10, heblaw am y ddwy flwyddyn ddiwethaf lle bu cynnydd bach yn 2015/16 a dim newid yn 2016/17. Bellach mae'r ganran yn llai na hanner yr hyn oedd hi saith mlynedd yn ôl, sy'n dangos cwymp o 3.7 y cant yn 2009/10 i 1.5 y cant yn 2016/17.
- Yn gyffredinol, collodd disgyblion oedd yn absennol yn gyson 28.2 y cant o sesiynau hanner diwrnod o ysgolion cynradd yn 2016/17. Fel y gwelir yn Nhabl 1, cyfradd absenoldeb cyffredinol bob disgybl o ysgolion cynradd yn 2016/17 oedd 5.1 y cant.
- Mae cyfradd absenoldeb anawdurdodedig ymhlith disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi bod yn cynyddu ers 2011/12, tra bod absenoldeb awdurdodedig wedi bod yn lleihau.
- Cyrhaeddodd cyfradd absenoldeb anawdurdodedig ymhlith disgyblion sy'n absennol yn gyson ei lefel isaf yn 2011/12, pan gollwyd 7.1 y cant o sesiynau hanner diwrnod ganddynt am resymau na awdurdodwyd gan yr ysgol. Mae wedi bod yn cynyddu ers hynny.
- Gan fod canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi bod yn disgyn ers 2009/10, heblaw am y ddwy flwyddyn diwethaf lle bu cynydd, mae hyn yn cael llai o effaith ar gyfraddau absenoldeb yn ysgolion cynradd. Yn 2007/08, roedd disgyblion oedd yn absennol yn gyson yn gyfrifol am 15.6 y cant o'r absenoldeb cyffredinol yn ysgolion cynradd. Erbyn 2016/17 roeddynt ond yn gyfrifol am 8.4 y cant o absenoldeb cyffredinol.

## Tabl 9: Dosbarthiad y rhesymau am absenoldeb disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ac ysgolion canol, yn ôl y rheswm am yr absenoldeb

Mae'r tabl yn dangos y ganran ar gyfer pob rheswm am absenoldeb fel cyfran o'r holl sesiynau o absenoldeb. Gall ei defnyddio i ddarganfod y rhesymau mwyaf cyffredin am absenoldeb. Nid yw cynnydd mewn ffigwr (ar gyfer rheswm penodol am absenoldeb) yn angenrheidiol yn meddwl bod y ganran o sesiynau hanner-dydd wedi eu methu oherwydd y rheswm yna wedi cynyddu. Mae'n golygu bod cyfran uwch o absenoldebau wedi'u ddynodi i'r rheswm penodol yna ar gyfer y flwyddyn yna.

| Math o absenoldeb | Cod | Rheswm dros yr absenoldeb | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'i awdurdodi | I | Salwch | 51.7 | 56.9 | 57.2 | 60.5 | 58.6 | 56.0 |
| | M | Apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol | 10.2 | 6.2 | 6.3 | 5.9 | 5.5 | 5.5 |
| | R | Achlysur crefyddol | 0.2 | 0.2 | 0.4 | 0.3 | 0.6 | 0.3 |
| | S | Cyfnod astudio | 0.1 | - | - | - | - | - |
| | T | Absenoldeb teithwyr | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.4 | 0.4 | 0.3 |
| | H | Gwyliau teuluol y cytunwyd iddynt | 19.3 | 17.0 | 11.7 | 8.4 | 9.0 | 11.6 |
| | F | Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd iddynt | 0.6 | 0.3 | 0.2 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| | E | Wedi'u gwahardd, ond heb drefnu darpariaeth arall | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.4 | 0.3 |
| | C | Rheswm arall a awdurdodwyd (nad oes cod ar ei gyfer | 4.8 | 5.0 | 4.5 | 4.3 | 4.2 | 3.8 |
| | | **Cyfanswm y sesiynau absenoldeb a awdurdodwyd** | **87.7** | **86.4** | **81.1** | **80.2** | **78.8** | **77.9** |
| Heb ei awdurdodi | G | Gwyliau teuluol (na chytunwyd neu sesiynau y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd) | 1.3 | 3.1 | 8.0 | 9.7 | 10.5 | 10.9 |
| | U | Hwyr (cyrraedd ar ôl galw'r gofrestr) | 1.1 | 0.9 | 1.1 | 1.0 | 1.0 | 1.0 |
| | O | Rheswm arall anawdurdodedig (nad oes cod ar ei gyfer) | 7.7 | 7.7 | 9.1 | 8.6 | 9.3 | 9.8 |
| | N | Ni ddarparwyd rheswm dros yr absenoldeb eto | 2.2 | 1.9 | 0.8 | 0.5 | 0.4 | 0.4 |
| | | **Cyfanswm y sesiynau absenoldeb na awdurdodwyd** | **12.3** | **13.6** | **18.9** | **19.8** | **21.2** | **22.1** |
| Cyffredinol | | **Cyfanswm yr absenoldeb cyffredinol** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** |

**Pwyntiau allweddol**

**Yn 2016/17:**

Roedd **56.0%** o'r absenoldeb oherwydd salwch.

Roedd **11.6%** o'r absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol y cytunodd yr ysgol iddynt.

Roedd **10.9%** o'r absenoldeb oherwydd gwyliau *na* chytunodd yr ysgol iddynt.

- Salwch oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd am absenoldeb o ysgolion cynradd a gynhelir yn 2016/17. Cafodd 56.0 y cant o'r holl sesiynau hanner diwrnod a gollodd disgyblion eu colli oherwydd salwch.
- Mae cyfradd yr absenoldeb oherwydd apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol neu salwch wedi gostwng rhwng 2015/16 a 2016/17.
- Cynyddodd cyfradd yr absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol y cytunodd yr ysgol iddynt o 9.0 y cant yn 2015/16 i 11.6 y cant yn 2016/17. Yn ogystal, cynyddodd cyfradd yr absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol *na* chytunwyd gan yr ysgol o 1.3 y cant yn 2011/12 i 10.9 y cant yn 2016/17. Er bod y gyfradd wedi cynyddu, mae'r canran o absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol

na chytunwyd iddynt wedi aros yr un peth dros y tair blynedd diwethaf ac mae wedi bod yn llai na un y cant ers 2011/12. Gweler hyn yn nhabl 10.

- Roedd cyfradd fawr o'r sesiynau absenoldeb am resymau anawdurdodedig nad oes cod ar eu cyfer, sy'n golygu nad oedd modd eu gosod yn unrhyw un o'r tri chategori arall. Bu cynnydd yn nefnydd cod presenoldeb 'O'.
- Mae Tablau 9 a 10 yn dangos y data mewn dwy gwahanol ffordd. Mae Tabl 9 yn dangos faint o'r absenoldeb o ysgolion cynradd oedd i'w briodoli i bob rheswm. Mae Tabl 10 yn dangos canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd pob rheswm. Er enghraifft, mae salwch yn gyfrifol am 56.0 y cant o'r achosion o absenoldeb, ond dim ond 2.8 y cant o'r sesiynau hanner diwrnod a gollwyd am y rheswm hwn.

## Tabl 10: Canran y sesiynau a gollwyd gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ac ysgolion canol, yn ôl y rheswm am yr absenoldeb

| Math o absenoldeb | Cod | Rheswm dros yr absenoldeb | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'i awdurdodi | I | Salwch | 3.2 | 3.6 | 3.0 | 3.1 | 3.0 | 2.8 |
| | M | Apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol | 0.6 | 0.4 | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.3 |
| | R | Achlysur crefyddol | - | - | - | - | - | - |
| | S | Cyfnod astudio | - | - | - | - | - | - |
| | T | Absenoldeb teithwyr | - | - | - | - | - | - |
| | H | Gwyliau teuluol y cytunwyd iddynt | 1.2 | 1.1 | 0.6 | 0.4 | 0.5 | 0.6 |
| | F | Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd iddynt | - | - | - | - | - | - |
| | E | Wedi'u gwahardd, ond heb drefnu darpariaeth arall | - | - | - | - | - | - |
| | C | Rheswm arall a awdurdodwyd (nad oes cod ar ei gyfer) | 0.3 | 0.3 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 |
| | | **Cyfanswm y sesiynau absenoldeb a awdurdodwyd** | **5.4** | **5.5** | **4.2** | **4.0** | **4.0** | **3.9** |
| Heb ei awdurdodi | G | Gwyliau teuluol (na chytunwyd iddynt neu sesiynau y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd) | 0.1 | 0.2 | 0.4 | 0.5 | 0.5 | 0.5 |
| | U | Hwyr (cyrraedd ar ôl galw'r gofrestr) | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| | O | Rheswm arall anawdurdodedig (nad oes cod ar ei gyfer) | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.4 | 0.5 | 0.5 |
| | N | Ni ddarparwyd rheswm dros yr absenoldeb eto | 0.1 | 0.1 | - | - | - | - |
| | | **Cyfanswm y sesiynau absenoldeb na awdurdodwyd** | **0.8** | **0.9** | **1.0** | **1.0** | **1.1** | **1.1** |
| Cyffredinol | | **Cyfanswm yr absenoldeb cyffredinol** | **6.1** | **6.3** | **5.2** | **5.0** | **5.1** | **5.0** |

**Pwyntiau allweddol**

**Yn 2016/17:**

- Gostyngiad mewn absenoldeb oherwydd salwch.
- Cynnydd mewn absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol y cytunwyd iddynt neu gwyliau teuluol anawdurdodedig.

- Bu gostyngiad yn y canran o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd salwch i 2.8 y cant yn 2016/17
- Dim newid dros y pedair blynedd diwethaf yn y canran o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd apwyntiad meddygol neu ddeintyddol
- Rhwng 2011/12 a 2014/15 bu gostyngiad yn y canran o sesiynau a gollwyd oherwydd gwyliau teuluol y cytunwyd iddynt, ond roedd cynnydd yn 2015/16 a 2016/17. Fodd bynnag roedd dim newid yn y canran o sesiynau a gollwyd oherwydd gwyliau teuluol na chytunwyd iddynt.

# Nodiadau

## Cyd-destun

### Polisi/Gweithredol

Rhaid i bob plentyn sy'n cael addysg ysgol yn ystod y diwrnod ysgol arferol gael ei roi ar y gofrestr bresenoldeb. Mae cofrestr bresenoldeb yn cofnodi presenoldeb pob disgybl ym mhob sesiwn y mae'r ysgol ar agor i ddisgyblion, a rhaid ei galw ddwywaith y dydd: ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Rhaid i'r gofrestr ddangos a yw pob plentyn yn bresennol, neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd addysgol cymeradwy oddi ar y safle (dylid nodi eu bod yn bresennol os ydynt yn mynd i'r ddarpariaeth honno), neu'n absennol. Yn ogystal â hynny, lle bo disgybl o oedran ysgol gorfodol yn absennol, rhaid i'r gofrestr ddangos hefyd a gafodd yr absenoldeb ei awdurdodi ai peidio.

Mae gwella lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Gweinidog. Awgrymir tystiolaeth fod absenoldeb yn cael effaith ar gyrhaeddiad dysgwr. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau fod pobl ifanc yn cael pob cyfle i gyrraedd eu potensial, gan gynnwys sicrhau presenoldeb cyson yn yr ysgol. Mae'r Fframwaith Dadansoddi Presenoldeb yn parhau i chwarae rôl bwysig yng nghyd-destun gwella ysgolion, gan ddarparu dull safonedig a chadarn i ddadansoddi data.

### Ffynhonnell y Data

Data presenoldeb lefel-disgybl yw'r Cofnod o Bresenoldeb Disgyblion, a gasglwyd yn electronig gan ysgolion a gynhelir, sydd o dan ofal eu hawdurdod lleol. Caiff data presenoldeb ysgolion annibynnol eu casglu drwy arolwg papur gwirfoddol. Caiff yr un ffurflen ei hanfon i ysgolion arbennig a gynhelir drwy eu hawdurdodau lleol ac mae'n orfodol i ysgolion arbennig ymateb. Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi o fewn Llywodraeth Cymru sy'n trefnu i gasglu'r data.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Caiff yr ystadegau eu defnyddio o fewn Llywodraeth Cymru a thu allan er mwyn monitro tueddiadau addysgol ac fel sylfaen i waith dadansoddi pellach ar y data gwaelodol. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Y Gyfarwyddiaeth Addysg
- Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
- Adrannau eraill Llywodraeth Cymru
- Fy Ysgol Leol
- Yr Adran Addysg yn Lloegr.
- adrannau eraill y Llywodraeth.
- awdurdodau lleol ac ysgolion.

- Swyddfa Archwilio Cymru.
- y gymuned ymchwil.
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion.
- dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiol ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- cyngor i Weinidogion.
- pecynnau data craidd addysg i Gymru gyfan (sydd wedi disodli Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion).
- gwaith cymharu a meincnodi ALlau ac ysgolion
- llywio'r broses o benderfynu ar bolisi addysg yng Nghymru.
- datblygu system Categoreiddio Ysgolion Cymru.
- rhoi gwybodaeth i Estyn yn ystod arolygiadau ysgolion.
- cyfrannu at y Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol.
- meincnodi rhyngwladol.
- elfen addysg Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- helpu gyda gwaith ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

## Cywirdeb

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod data yn cael eu dilysu cyn i dablau gael eu cyhoeddi. Caiff y data eu casglu i ffurflen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy DEWi, system ar-lein ddiogel i drosglwyddo data a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r broses yn cynnwys sawl cam awtomatig lle caiff y data eu dilysu a'u gwirio i sicrhau eu bod yn gwneud synnwyr, er mwyn sicrhau data o ansawdd uchel.

Gyda'r nod o wella ymhellach gywirdeb y data, cyflwynwyd cam newydd i'r broses ddilysu am y tro cyntaf wrth gasglu data 2011/12. Anfonwyd tabl at bob awdurdod lleol yn cynnwys crynodeb o'r holl ddata ar gyfer eu hysgolion uwchradd a gynhelir, a gofynnwyd iddynt eu gwirio. Anfonwyd tabl tebyg i awdurdodau lleol am y tro cyntaf wrth gasglu data 2013/14 er mwyn iddynt wirio data eu hysgolion arbennig. Yn y gorffennol, anfonwyd llythyr i ysgolion arbennig yn uniongyrchol i ofyn iddynt wirio crynodeb o'u data.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2009/10, oherwydd tywydd gwael gorfodwyd nifer fawr o ysgolion i gau er mwyn gwarchod eu myfyrwyr. Llwyddodd rhai ysgolion i aros ar agor ar gyfer disgyblion a oedd yn gallu cyrraedd yn ddiogel. Yn achos y rheini na lwyddodd i fynd i'r ysgol ar y dyddiau hyn, cofnodwyd absenoldeb a awdurdodwyd, gan gynyddu canrannau absenoldeb cyffredinol yr ysgolion. Gan na chaewyd pob ysgol oherwydd y tywydd gwael, a chan fod canran y disgyblion a

oedd yn absennol yn amrywio yn achos yr ysgolion hynny a wnaeth gau am nifer amrywiol o ddyddiau, nid oedd modd mesur yr effaith ar gyfraddau absenoldeb awdurdodau lleol.

Ychwanegwyd categori ystadegol - 'Dim rhaid bod yn bresennol' - at gasgliad data presenoldeb Llywodraeth Cymru yn 2010/11. Caiff sesiynau hanner diwrnod eu cofnodi yn y categori hwn pan nad oes modd i ddisgyblion unigol fynd i'r ysgol er bod yr ysgol ar agor, ee pan na all y disgyblion gyrraedd yr ysgol yn saff, ac ni chaiff hyn ei gyfrif tuag at gyfanswm nifer y sesiynau y gallent eu mynychu yn ystod y flwyddyn. Ni fydd tywydd gwael, felly, yn effeithio'n andwyol bellach ar ganrannau presenoldeb ysgolion nac awdurdodau lleol.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Roedd DEWi ar gael i lanlwytho ffeiliau ar 18 o Orffennaf 2017, a gofynnwyd i ysgolion cynradd a gynhelir gyflwyno data presenoldeb ar gyfer pob disgybl rhwng 5 a 15 oed a oedd wedi'u cofrestru yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd 2016/17. Gofynnwyd i ysgolion canol, ysgolion arbennig ac annibynnol gyflwyno data presenoldeb ar gyfer disgyblion rhwng 5 a 10 oed ar y gofrestr yn y flwyddyn academaidd 2016/17. Gofynnwyd i ysgolion ac awdurdodau lleol wedyn ddilysu eu data o fewn cyfnod dilysu.

### Hygyrchedd ac eglurder

Caiff y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn ei rag-gyhoeddi ac yna'i gyhoeddi ar adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru. Ychwanegir tablau manylach ar StatsCymru, gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n caniatáu i bobl weld, golygu a lawrlwytho data.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Casglwyd data am absenoldeb lefel-disgybl gan ysgolion uwchradd a gynhelir yn 2007/08 am y tro cyntaf. Fodd bynnag, nid yw'r diffiniadau a'r cyfrifiadau yn y broses gasglu wedi newid, felly ni effeithiwyd ar gyfatebiaeth dros amser.

Ers 2002/03 gofynnwyd i ysgolion uwchradd ddarparu, ar sail wirfoddol, eu gwybodaeth am bresenoldeb yn ôl rhyw'r disgyblion. Yn 2007/08 fe'i gwnaed yn orfodol i ysgolion uwchradd a gynhelir ddarparu gwybodaeth yn ôl rhyw'r disgyblion, ond parhaodd yn rhywbeth gwirfoddol i ysgolion arbennig ac annibynnol. Darparodd 1,351 o ysgolion (99.6 y cant) ddata ar sail rhyw'r disgyblion yn 2016/17, o gymharu â 1,366 o ysgolion (99.6 y cant) yn 2015/16. Nid ydym yn argymell cymharu newidiadau o ran absenoldeb yn ôl rhyw'r disgyblion o un flwyddyn i'r llall cyn 2007/08, gan fod gwahanol ysgolion wedi ymateb bob blwyddyn.

Oherwydd effaith cau ysgolion yn rhannol yn sgil tywydd gwael yn ystod blwyddyn academaidd 2009/10 ar gyfraddau presenoldeb ysgolion, dylid bod yn ofalus wrth gymharu newidiadau un flwyddyn ac un arall.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13, efallai bod achosion o salwch fel y frech goch wedi effeithio'n andwyol ar lefelau presenoldeb awdurdodau lleol. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu data awdurdodau lleol y flwyddyn honno.

Yn ystod blynyddoedd blaenorol, cyfrifwyd cyfraddau absenoldeb ar gyfer ysgolion arbennig ac annibynnol drwy rannu nifer y sesiynau hanner diwrnod o absenoldeb â nifer y sesiynau hanner

diwrnod pan oedd yr ysgol ar agor, lluosi hynny â nifer y disgyblion ar y gofrestr yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr, a lluosi'r rhif hwnnw â 100. Yn 2013/14 penderfynwyd mynd ati i gyfrifo canrannau absenoldeb mewn ffordd fwy cywir, gan rannu nifer y sesiynau hanner diwrnod o absenoldeb â chyfanswm nifer y sesiynau pan oedd disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol, a lluosi hynny â 100. Yn 2013/14, 2014/15 ac 2015/16 dderbyniwyd data ar gyfer y nifer o sesiynau hanner diwrnod roedd yr ysgol ar agor yn unig gan un, pump a dwy ysgol yn y drefn honno. Yn 2016/17 derbyniwyd yr un data yn unig gan ddwy ysgol. Oherwydd hyn, ac er bod y canrannau ar gyfer y mwyafrif o ysgolion arbennig ac annibynnol wedi'u cyfrifo ar sail y dull newydd, mae rhai canrannau wedi'u cyfrifo ar sail yr hen ddull. Oherwydd y newid yn y fethodoleg, dylid bod yn ofalus wrth gymharu data ysgolion arbennig ac annibynnol un flwyddyn ac un arall.

## Diffiniadau

### Cwmpas y data

Mae'r wybodaeth am absenoldeb yn y Datganiad Ystadegol cyntaf hwn yn ymwneud â chanran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion yn sgil absenoldeb anawdurdodedig a chyffredinol o ddechrau'r flwyddyn academaidd hyd ŵyl banc diwedd Mai. Mae disgyblion o oedran ysgol gorfodol (5-15) sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion uwchradd a gynhelir a disgyblion 11-15 oed sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion arbennig ac annibynnol wedi'u cynnwys yn y data (y disgyblion a oedd yr oedran hynny ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd). Daeth data presenoldeb i law gan 1,357 o ysgolion a oedd â disgyblion o fewn y grwpiau oedran hyn yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17.

Crewyd math newydd o ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13, sef ysgol ganol. Mae ysgolion canol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion o oedran cynradd ac uwchradd. Caiff data ysgolion canol eu rhoi yng nghategori 'ysgolion prif ffrwd' yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn, ond maent ond yn cynnwys data ar gyfer disgyblion 11-15 oed (ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd). Fel yn achos data ar gyfer ysgolion eraill, mae data presenoldeb uwchradd mewn ysgolion canol yn cwmpasu'r amser o ddechrau'r flwyddyn academaidd hyd at gwŷl y banc mis Mai.

Caiff y data am brydau ysgol am ddim eu casglu drwy Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) mis Ionawr ac maent yn seiliedig ar gyfartaledd 3 blynedd. Lle mae ysgolion wedi'u cyfuno, mae'r cyfartaledd 3 blynedd ar gyfer yr ysgol newydd yn cynnwys data am brydau ysgol am ddim ar gyfer ysgolion blaenorol y flwyddyn neu'r blynyddoedd pan oeddent ar agor cyn eu cyfuno.

### Mathau o Absenoldeb

Mae **pob** absenoldeb (neu absenoldebau '**cyffredinol**') yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hawdurdodi a'r rheini sydd heb eu hawdurdodi:

- absenoldeb a ganiatawyd gan athro neu gynrychiolydd awdurdodedig arall o'r ysgol yw **absenoldeb a awdurdodwyd**. Mae hyn yn cynnwys absenoldebau y rhoddwyd esboniad boddhaol drosto (ee salwch, profedigaeth deuluol neu achlysur crefyddol).

- absenoldeb na chaniatawyd gan athro neu gynrychiolydd awdurdodedig o'r ysgol yw **absenoldeb anawdurdodedig**. Mae hyn yn cynnwys pob absenoldeb na roddwyd esboniad neu gyfiawnhad drosto.

Lle bydd disgyblion yn dilyn gweithgareddau addysgol sydd wedi'u cymeradwyo ac sy'n cael eu goruchwylio ar safle arall (ee profiad gwaith neu ymweliadau addysgol), ystyrir eu bod yn bresennol yn yr ysgol.

### Dyddiadau Tymhorau

Casglwyd data presenoldeb ac absenoldeb ar y dyddiau pan oedd yr ysgolion ar agor i ddisgyblion rhwng y dyddiadau canlynol:

- Tymor yr hydref - o 1 Medi 2016 i 25 Rhagfyr 2016.
- Tymor y gwanwyn - o 26 Rhagfyr 2016 i 7 Ebrill 2017.
- Tymor yr haf - o 8 Ebrill 2017 i 25 Gorffennaf 2017.

## Disgyblion sy’n absennol yn gyson

Cyfeiria ‘disgyblion sy’n absennol yn gyson’ at y disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o nifer modd y sesiynau hanner diwrnod pan oedd ysgolion ar agor i ddisgyblion (heb gynnwys diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS)). Bydd yr enghraifft a ganlyn o’r dull a ddefnyddiwyd i werthuso disgyblion sy’n absennol yn gyson ar gyfer 2016/17 yn helpu i esbonio hyn:

- Y modd yw’r nifer sy’n ymddangos amlaf, ac felly nifer modd y sesiynau hanner diwrnod pan oedd ysgolion ar agor i ddisgyblion yw’r nifer amlaf o sesiynau pan oeddent ar agor i ddisgyblion. Yn achos blwyddyn academaidd 2016/17, roedd mwyafrif yr ysgolion cynradd a gynhelir ar agor i ddisgyblion am 380 o sesiynau hanner diwrnod.
- Ugain y cant o’r ffigur hwnnw yw 76 (380 * 0.2 = 76) o sesiynau hanner diwrnod.
- Felly, disgybl a oedd yn absennol yn gyson yn 2016/17 oedd rhywun a oedd yn absennol o isafswm o 76 o sesiynau hanner diwrnod.

Gan fod nifer modd y sesiynau pan oedd ysgolion ar agor i ddisgyblion yn newid o un flwyddyn i’r llall, mae’r ffigur a ddefnyddir i benderfynu a yw disgybl yn ddisgybl sy’n absennol yn gyson ai peidio yn newid hefyd.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig] wedi dynodi’r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy’n golygu eu bod yn cydymffurfio â’r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol].

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â’r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Gwybodaeth bellach

Mae'r ddogfen hon ar gael
http://gov.wales/statistics-and-research/absenteeism-primary-schools/?lang=cy.

Ceir yma ddatganiad tebyg sy'n ymwneud â absenoldeb o ysgolion uwchradd a'u cynhelir, ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17, a elwir yn 'Absenoldeb o ysgolion uwchradd, 2016/17', ac fe'i gyhoeddwyd ar 31 Awst 2017.

Mae Lloegr yn cyhoeddi data absenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn y datganiad ystadegol a elwir yn 'Pupil absence in schools in England: 2015 to 2016' [Saesneg yn unig].

Mae'r Alban yn cyhoeddi data absenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn eu setiau data atodol.

Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi data absenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd.

## Cael gafael ar y data yn electronig

Mae'r data y tu ôl i rai o'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn i'w gweld ar wefan StatsCymru (gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n caniatáu i bobl weld, golygu, creu a llawrlwytho tablau a siartiau).

Mae mwy o ddata am y tablau hyn neu ar ddata presenoldeb ar gyfer ysgolion unigol ar gael ar gais; anfonwch e-bost i ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Mae data am ysgolion ar gael hefyd ar Fy Ysgol Leol (a ddiweddarwyd ddechrau 2017)

## Diweddariad nesaf

Rhagfyr 2018 (dros dro)

Bydd y diweddariad nesaf yn cynnwys adroddiad am y flwyddyn academaidd 2017/18.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

## Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.